

Prosiect Mesur a Rheoli Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Dyma brosiect cyffrous ar gyfer mudiadau'r sector i fesur effaith eu gwaith wedi ei ariannu gan Gronfa'r Loteri Fawr am gyfnod o dair blynedd. Sefydlwyd Partneriaeth arloesol rhwng y chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol yng Ngogledd Cymru, gyda Mantell Gwynedd yn arwain a rhannu'r dysgu ar fesur gwerth cymdeithasol. Fel mudiadau cymorth ar gyfer y trydydd sector yng Ngogledd Cymru, rydym yn y lle gorau i alluogi mudiadau i ddangos a chyfathrebu'r effaith maent yn cael ar gymunedau.

Bydd tîm Social Value Cymru yn gweithio'n agos gyda staff ac ymddiriedolwyr 30 o fudiadau trydydd sector ar draws Gogledd Cymru er mwyn eu helpu i ddeall sut i fesur gwerth cymdeithasol eu gwasanaethau fydd, yn ei dro, yn eu galluogi i gynllunio a gwneud penderfyniadau gwell.

Yn dilyn proses ymgeisio ddechrau'r flwyddyn mae'r mudiadau bellach wedi eu dewis. Mae'r mudiadau yn cynrychioli gwasanaethau pwysig ar draws y Gogledd sydd yn cael eu hadnabod fel prif feysydd o angen ar draws y Gogledd yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth a hefyd Asesiad Llesiant Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau gofalwyr, plant a phobl ifanc, dioddefwyr o drais, unigrwydd o fewn cymunedau, gwasanaethau i gyn-filwyr a llawer mwy. Dyma gyfle gwych i edrych ar nifer o astudiaethau achos a dangos pwysigrwydd mudiadau trydydd sector o ran eu cyfraniad tuag at waith ataliol.

Un o'r mudiadau sydd yn cymryd rhan yw Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych mewn partneriaeth a Phartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych,

"Wedi gwneud ychydig gyda Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau yn barod yng Nghyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, rydym yn awyddus i barhau a symud ymlaen gyda hyn, a hefyd cefnogi ein partneriaid i gryfhau ein gwerthusiad o'n prosiect "Le Chi Neu Ni".

Graham Kendall, Swyddog Datblygu Busnes, Cyngor ar Bopeth, Sir Ddinbych.

Mudiad arall sydd yn cymryd rhan yw Welsh Institute of Therapeutic Horsemanship, lle byddwn yn edrych ar effaith y prosiect "Feeling Herd", gan ddefnyddio therapi wedi ei hwyluso gan geffylau i gefnogi a gwella perthynas rhwng rhieni a phlant.

"Rydym yn cynnig gwasanaeth unigryw ac arloesol ac mae'n anodd weithiau i egluro gwerth rhain i bobl nad sydd yn gyfarwydd gyda therapi a gweithgareddau drwy ddefnyddio ceffylau. Rydym yn gobeithio y bydd Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau yn ein helpu i ddangos effaith ein gwasanaeth a'r gwerth sydd yn cael ei greu i fuddiolwyr a rhanddeiliaid eraill."

Iain Crosbie, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Welsh Institute of Therapeutic Horsemanship

Mae rhestr o'r mudiadau ar gael ar ein gwefan

<http://www.mantellgwynedd.com/social-value-cymru.html>



**ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**



*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups*



CVSC

www.cvsc.org.uk



**Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir
Ddinbych**
Creu Cymunedau Cryf drwy Weithredu
Gwirfoddol

Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through
voluntary action

FLVC

Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint



AVOW
Association of Voluntary Organisations in Wrexham
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrexham